OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 797 (Cy.78)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *15 Mawrth 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *16 Mawrth 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *6 Ebrill 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(e) ac (f), 17(2), 26(3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt(**2**).

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, maent wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus agored a thryloyw tra bu'r Rheoliadau hyn yn cael eu llunio a'u gwerthuso.

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 6 Ebrill 2010.

(**1**) 1996 p. 16. Amnewidiwyd adran 1(1) a (2) (diffiniad o "food") gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adrannau 17 a 18 gan baragraffau 12 a 21 yn eu trefn o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), ("Deddf 1999"). Cafodd adran 48 hefyd ei diwygio gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adran 53(2) gan baragraff 19 o Atodlen 16 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (1994 p.40), Atodlen 6 i Ddeddf 1999 ac O.S. 2004/2990.

(**2**) Mae swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers" (sef, o ran Cymru a Lloegr ac yn gweithredu ar y cyd, y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a'r Ysgrifenyddion Gwladol a oedd yn eu trefn yn ymwneud ag iechyd yn Lloegr a bwyd a iechyd yng Nghymru ac o ran yr Alban, yr Ysgrifennydd Gwladol) bellach yn arferadwy o ran Lloegr gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â pharagraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999. Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers" i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999 ac wedyn fe'u trosglwyddwyd i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran yr Alban i Weinidogion yr Alban gan adran 53 o Ddeddf yr Alban 1998 (1998 p.46) fel y'i darllenir gydag adran 40(2) o Ddeddf 1999.

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn addasu nifer o offerynnau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o'r Cytuniad i Benderfyniad y Cyngor 1999/468/EC o ran y weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu: Addasiad i'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu — Rhan Pedwar (OJ Rhif L188, 18.07.2009, t.14).

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Rheoliad 104/2000" ("*Regulation 104/2000*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 104/2000 ar gyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu(**4**);

ystyr "Rheoliad 2065/2001" ("*Regulation 2065/2001*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2065/2001 sy'n gosod rheolau manwl ar gymhwysiad Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 104/2000 o ran hysbysu defnyddwyr am gynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu(**5**);

ac mae i unrhyw ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yr un ystyr ag a roddir i'r ymadroddion Saesneg cyfatebol yn Rheoliad 104/2000 neu Reoliad 2065/2001.

**Tramgwyddau sy'n ymwneud â hysbysu defnyddwyr**

**3.**—(1) Bydd unrhyw berson sydd, yn groes i Erthygl 4.1 o Reoliad 104/2000 (gwybodaeth i ddefnyddwyr) o'i darllen ynghyd â Rheoliad 2065/2001, yn cynnig ar gyfer eu hadwerthu i'r defnyddiwr terfynol unrhyw un o'r cynhyrchion y mae'r Erthygl honno yn gymwys iddynt yn euog o dramgwydd ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

(2) Bydd unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio ag Erthygl 8 o Reoliad 2065/2001 (olrhain a rheoli) yn euog o dramgwydd ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.

**Rhestrau o ddynodiadau masnachol**

**4.**—(1) O ran Cymru, y rhestr o ddynodiadau masnachol y mae'n ofynnol i'r Deyrnas Unedig ei llunio a'i chyhoeddi o dan Erthygl 4.2 o Reoliad 104/2000 yw'r un a nodir yn y tabl yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn fel y'i darllenir gyda'r nodiadau iddo, ac yn unol â hynny, y dynodiadau masnachol a bennir yn yr Atodlen honno yw'r enwau a ragnodir gan y gyfraith at ddibenion rheoliadau 6(1), 7 ac 8(a) o Reoliadau Labelu Bwyd 1996 i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru(**6**).

(2) Mewn perthynas â rhywogaeth a gynhwysir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn ac mewn rhestr a gyhoeddwyd yn Saesneg o dan Erthygl 4.2 o Reoliad 104/2000 sy'n cael effaith mewn Aelod-wladwriaeth arall neu mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig, bydd y dynodiad masnachol ar gyfer y rhywogaeth honno yn y rhestr sy'n cael effaith yn yr Aelod-wladwriaeth arall honno neu'r rhan honno o'r Deyrnas Unedig yn un amgen i'r dynodiad masnachol ar gyfer y rhywogaeth honno a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn ac maent yn enwau a ragnodir gan y gyfraith at y dibenion a bennir ym mharagraff (1).

**Hepgor cyfeirio at y dull cynhyrchu**

**5.** Yn yr achos a ddisgrifir yn Erthygl 4.2 o Reoliad 2065/2001 (sefyllfa lle y mae'n amlwg oddi wrth y dynodiad masnachol a chylch y ddalfa fod y rhywogaeth yn cael ei dal yn y môr) ni fydd yn groes i Erthygl 4.1 o Reoliad 104/2000 i gynnig ar gyfer ei adwerthu i'r defnyddiwr terfynol gynnyrch y mae'r Erthygl honno yn gymwys iddo heb fod y cynnyrch wedi'i farcio neu wedi'i labelu â'r dull cynhyrchu.

(**4**) OJ Rhif L17, 21.1.2000, t.22. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw gan Ddeddf yr UE ynghylch amodau ymaelodi'r Weriniaeth Tsiec, etc. (OJ Rhif L236, 23.9.2003, t.33).

(**5**) OJ Rhif L278, 23.10.2001, t.6. Cywirwyd y Rheoliad hwnnw gan Gorigendwm (OJ Rhif L10, 12.1.2002, t.82 (2001/2065)) ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf yr UE ynghylch amodau ymaelodi'r Weriniaeth Tsiec etc. (OJ Rhif L236, 23.09.2003 t.33) a chan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1792/2006 (OJ Rhif L362, 20.12.2006 t.1).

(**6**) O.S. 1996/1499; mewnosodwyd rheoliad 6(4) (sy'n diffinio "prescribed by law" at ddibenion rheoliadau 6(1), 7 ac 8(a)) gan O.S. 1998/1398.

### Meintiau bach o gynhyrchion

**6.**—(1) At ddibenion Erthygl 4.1 o Reoliad 104/2000 o'i darllen ynghyd ag Erthygl 7 o Reoliad 2065/2001, rhaid i'r meintiau bach o gynhyrchion y caniateir eu gwerthu'n uniongyrchol i ddefnyddwyr fod yn gynhyrchion na fydd eu gwerth yn uwch nag 20 Ewro am bob pryniant.

(2) At ddibenion y Rheoliad hwn, bernir bod y cyfeiriad at 20 Ewro yn gyfeiriad at werth cyfatebol y nifer hwnnw o Ewros mewn sterling, wedi'u trosi drwy gyfeirio at y gyfradd drosi a gyhoeddir yn flynyddol ar ddiwrnod gwaith cyntaf y mis Medi blaenorol yng nghyfres C o Gyfnodolyn Swyddogol y Cymunedau Ewropeaidd neu, os na chyhoeddir cyfradd ynddo ar y diwrnod hwnnw, y gyfradd a gyhoeddir ynddo gyntaf ar ôl hynny.

### Gwybodaeth ychwanegol sy'n ymwneud â chylch y ddalfa

**7.** Caiff y mynegiad o gylch y ddalfa sy'n ofynnol o dan Erthygl 4.1(c) o Reoliad 104/2000, os yw'r amgylchiadau a ddisgrifir yn Erthygl 5.1(c) o Reoliad 2065/2001 yn gymwys, fynegi'r amryw Aelod-wladwriaethau neu drydydd gwledydd y cafodd y cynnyrch ei ffermio ynddynt.

### Dynodiadau masnachol dros dro

**8.**—(1) At ddibenion Erthygl 2 o Reoliad 2065/2001 (dynodiadau masnachol dros dro), yr Asiantaeth Safonau Bwyd yw'r awdurdod cymwys.

(2) Rhaid i'r Asiantaeth Safonau Bwyd lunio a chyhoeddi rhestr o ddynodiadau masnachol dros dro a osodir yn unol ag Erthygl 2.

### Gorfodi

**9.** Rhaid i bob awdurdod bwyd orfodi a gweithredu'r Rheoliadau hyn o fewn ei ardal.

### Cymhwyso amryw ddarpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd 1990

**10.** Bydd darpariaethau canlynol Deddf Diogelwch Bwyd 1990 (“y Ddeddf”) yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad y dehonglir unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu Ran o'r Ddeddf yn gyfeiriad at y Rheoliadau hyn ac at y darpariaethau hynny yn Rheoliad 104/2000 a Rheoliad 2065/2001 y mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â hwy—

(a) adran 3 (rhagdybiaeth bod bwyd wedi'i fwriadu ar gyfer ei fwyta gan bobl);

(b) adran 20 (tramgwyddau oherwydd bai person arall);

(c) adran 21 (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy)(**7**) gyda'r addasiad bod is-adrannau (2) i (4) yn gymwys mewn perthynas â thramgwydd o dan reoliad 3(1) fel y maent yn gymwys mewn perthynas â thramgwydd o dan adran 14 neu 15;

(ch) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);

(d) adran 33(1) (rhwystro etc. swyddogion);

(dd) adran 33(2) gyda'r addasiad y bernir bod y cyfeiriad at “any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above” yn gyfeiriad at unrhyw ofyniad o'r fath a grybwyllir yn yr is-adran honno fel y'i cymhwysir gan baragraff (d);

(e) adran 35(1) (cosbi tramgwyddau)(**8**) i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(1) fel y'i cymhwysir gan baragraff (d);

(**7**) Diwygwyd adran 21 gan O.S. 2004/3279.

(**8**) Diwygir adran 35(1) gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (2003 p.44), Atodlen 26, paragraff 42, o ddyddiad sydd i'w bennu.

(f) adran 35(2) a (3)(**9**) i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(2) fel y'i cymhwysir gan baragraff (dd);

(ff) adran 36 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol);

(g) adran 36A (tramgwyddau gan bartneriaethau Albanaidd)(**10**); ac

(ng) adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll).

**Dirymu**

**11.** Dirymir y Rheoliadau canlynol—

(a) Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) 2003(**11**); a

(b) Rheoliadau Labelu Pysgod (Diwygio) (Cymru) 2006(**12**).

*Gwenda Thomas*
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

15 Mawrth 2010

(**9**) Diwygwyd adran 35(3) gan O.S. 2004/3279.
(**10**) Mewnosodwyd adran 36A gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), Atodlen 5, paragraff 16.
(**11**) O.S. 2003/1635 (Cy.177).
(**12**) O.S. 2006/1339 (Cy.131).

## YR ATODLEN

Rheoliad 4

### Dynodiadau Masnachol

**1.** Yn ddarostyngedig i baragraffau 2 a 3, y dynodiad masnachol ar gyfer unrhyw rywogaeth o bysgod a bennir yng ngholofn 2 o'r Tabl canlynol fydd enw a bennir ar gyfer y rhywogaeth honno yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 1.

**2.** Caniateir defnyddio enw arferol ar gyfer unrhyw rywogaeth o bysgod sydd wedi cael eu mygu neu gael eu rhoi drwy broses debyg, onid yw enw'r rhywogaeth yng ngholofn 2 o'r Tabl yn cael ei ddilyn gan seren. Yn yr achosion hynny, yr enw a ddefnyddir ar gyfer y bwyd pan fydd y pysgod wedi eu mygu fydd enw a bennir ar gyfer y rhywogaeth honno yng ngholofn 1 o'r Tabl a enwyd gyda'r geiriau "wedi'i fygu" neu "wedi'u mygu" ar ei ôl.

**3.** Ni fydd paragraff 1, o'i ddarllen ynghyd â'r Tabl, yn gymwys i bysgod a reoleiddir gan Reoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2136/89 sy'n gosod safonau marchnata cyffredin ar gyfer sardîns wedi'u preserfio a disgrifiadau masnachol ar gyfer sardîns wedi'u preserfio a chynhyrchion o fath sardîns wedi'u preserfio(**13**) (fel y'i diwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1181/2003(**14**) a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1345/2008(**15**)) neu Reoliad y Cyngor (EEC) Rhif 1536/92 sy'n gosod safonau marchnata cyffredin ar gyfer tiwna a bonito wedi'u preserfio(**16**).

| *Colofn 1*<br>*Dynodiad masnachol* | *Colofn 2*<br>*Rhywogaeth o bysgod* |
|---|---|
| **Pysgod môr** | |
| Asgell edafog | *Polynemus tetradactylum* |
| Baracwda | Pob rhywogaeth o *Sphyraena* |
| Baramwndi | *Lates calcarifer* |
| Blaiddbennog | *Chirocentrus dorab* |
| Blaidd môr | Pob rhywogaeth o'r teulu *Ariidae* |
| Bonito | Pob rhywogaeth o *Auxis* |
| | Pob rhywogaeth o *Euthynnus*, ac eithrio *Euthynnus* (*Katsuwonus*) *pelamis* |
| | Pob rhywogaeth o *Sarda* |
| Gellir defnyddio'r dynodiad masnachol canlynol hefyd mewn perthynas â physgod o'r rhywogaeth a restrir gyferbyn ag ef yng Ngholofn 2: | |
| Macrell Roche | *Auxis rochei* |
| Brithyll y graig *neu* Codyn hir | *Ophiodon elongatus* |
| Brwyniad | Pob rhywogaeth o'r teulu *Engraulidae* |
| Brwyniad Conwy *neu* Môr-frithyll *neu* Perl *neu* Gwyniedyn Ebrill | Pob rhywogaeth o *Osmerus* |
| Cegddu | Pob rhywogaeth o *Merluccius* |

(**13**) OJ Rhif L212, 22.7.1989, t.79.
(**14**) OJ Rhif L165, 3,7.2003, t.17.
(**15**) OJ Rhif L348, 24.12.2008, t.76.
(**16**) OJ Rhif L163, 17.6.1992, t.1.

| *Colofn 1* *Dynodiad masnachol* | *Colofn 2* *Rhywogaeth o bysgod* |
|---|---|
| Gellir defnyddio'r dynodiad masnachol canlynol hefyd mewn perthynas â physgod o'r rhywogaethau a restrir gyferbyn ag ef yng Ngholofn 2: | |
| Cegddu'r Penrhyn | *Merluccius capensis* |
| | *Merluccius paradoxus* |
| Cegddu gwyn | *Urophycis tenuis* |
| Cipiwr | Pob rhywogaeth o'r teulu *Lutjanidae* |
| Gellir defnyddio'r dynodiad masnachol canlynol hefyd mewn perthynas â physgod o'r rhywogaethau a restrir gyferbyn ag ef yng Ngholofn 2: | |
| Pysgodyn job | Pob rhywogaeth o *Aphareus* |
| | Pob rhywogaeth o *Aprion* |
| | Pob rhywogaeth o *Pristipomoides* |
| Cobia | *Rachycentron canadum* |
| Codyn asgell hir | *Laemonema longipes* |
| Codyn Ebrill | *Trisopterus minutus* |
| Codyn llwyd | *Trisopterus luscus* |
| Corbenfras *neu* Hadog | *Melanogrammus aeglefinus* |
| Corbennog | *Sprattus sprattus* mewn tun |
| Noder hefyd y cofnodion ar Sild *neu* Pennog Norwy, Corbennog a Silod mân | |
| Cornbig *neu* Pigbysg *neu* Carrai fôr *neu* Môr-nodwydd | Pob rhywogaeth pysgod môr o'r teulu *Belonidae* |
| Chwitlin glas *neu* Celog | *Pollachius virens* |
| Chwyrnwr | Pob rhywogaeth o *Triglidae* |
| | *Peristedion cataphractum* |
| Draenogyn môr | *Dicentrarchus labrax* |
| Draenogyn môr brych | *Dicentrarchus punctatus* |
| Draenogyn môr Japan | *Lateolabrax japonicus* |
| Draenog môr oren | *Hoplostethus atlanticus* |
| Draenogyn môr rhesog | *Morone saxatilis* |
| Draenogyn tywod torpedo | *Diplectrum maximum* |
| Draenogyn môr y De | *Paralabrax callaensis* |
| Drymiwr | Pob rhywogaeth o'r teulu *Sciaenidae* |

| *Colofn 1* *Dynodiad masnachol* | *Colofn 2* *Rhywogaeth o bysgod* |
|---|---|
| Gellir defnyddio'r dynodiadau masnachol canlynol hefyd mewn perthynas â physgod o'r rhywogaethau a restrir gyferbyn â hwy yng Ngholofn 2: | |
| Drymiwr y De | *Argyrosomus hololepidotus* |
| Drymiwr brenhinol | *Argyrosomus regius* |
| Ffleimbysgodyn | Pob rhywogaeth o'r teulu *Acanthuridae* |
| Grwper | Pob rhywogaeth o *Mycteroperca* |
| | Pob rhywogaeth o *Epinephelus* |
| Gweinbysgodyn | Pob rhywogaeth o'r teulu *Trichiuridae* |
| Gellir defnyddio'r dynodiadau masnachol canlynol hefyd mewn perthynas â physgod o'r rhywogaethau a restrir gyferbyn â hwy yng Ngholofn 2: | |
| Gweinbysgodyn du | *Aphanopus carbo* |
| Gweinbysgodyn arian | *Lepidopus caudatus* |
| Gwiwerbysgodyn | Pob rhywogaeth o'r teulu *Holocentridae* |
| Gwrachen | Pob rhywogaeth o'r teulu *Labridae* |
| Gwyniad môr *neu* Swtan *neu* Chwitlyn gwyn | *Merlangius merlangus* |
| Hanner-pig | Pob rhywogaeth o'r teulu *Hemiramphidae* |
| Hilsa | *Tenualosa ilisha* |
| Hoci | *Macruronus novaezelandiae* |
| Hoci Chile | *Macruronus magellanicus* |
| Honos | Pob rhywogaeth o Molva ac eithrio *Molva dypterygia* |
| Honos glas | *Molva dypterygia* |
| Hwylbysgodyn | Pob rhywogaeth o *Istiophorus* |
| Hyrddyn (llwyd) | Pob rhywogaeth o'r teulu *Mugilidae* |
| Iâr fôr *neu* Pysgodyn clytsiwr | *Cyclopterus lumpus* |
| Lleden Affrica | *Solea senegalensis* |
| Lleden Alaska | *Pleuronectes quadrituberculatus* |
| Lleden betral | *Eopsetta jordani* |
| Lleden Califfornia | *Parophrys vetulus* |
| Lleden chwithig *neu* Lleden wadn | *Solea solea* |
| Lleden dannedd blaenllym | *Atheresthes stomias* |
| Lleden dywod | *Limanda limanda* |

| *Colofn 1* *Dynodiad masnachol* | *Colofn 2* *Rhywogaeth o bysgod* |
|---|---|
| Lleden dywod felen | *Limanda ferruginea* |
| Lleden dywod y Môr Tawel | *Citharichthys sordidus* |
| Lleden esgyll hirion | *Glyptocephalus zachirus* |
| Lleden Fair | Pob rhywogaeth o *Lepidorhombus* |
| Lleden fannog | *Scophthalmus rhombus* |
| Lleden felen | *Limanda aspera* |
| Lleden fraith | *Paralichthys woolmani* |
| Lleden fwd *neu* Lleden llaid *neu* Lleden ddu | *Platichthys flesus* |
| Lleden Ffrengig *neu* Lleden Fawr | *Hippoglossus hippoglossus* |
| | *Hippoglossus stenolepis* |
| Lleden y gaeaf | *Pseudopleuronectes americanus* |
| Lleden goch *neu* Lleden frech | *Pleuronectes platessa* |
| Lleden gennog | *Hippoglossoides platessoides* |
| Lleden graig y gogledd | *Lepidopsetta polyxystra* |
| Lleden y graig | *Lepidopsetta bilineata* |
| Lleden India | *Psettodes erumei* |
| Lleden lefn | *Microstomus kitt* |
| Lleden y Môr Tawel | *Microstomus pacificus* |
| Lleden pen rhaw | *Hippoglossoides elassodon* |
| Lleden wrach | *Glyptocephalus cynoglossus* |
| Lleden ymenyn | *Isopsetta isolepis* |
| Lleden yr Ynys Las | *Reinhardtius hippoglossoides* |
| Lledrbysg | *Lichia amia* |
| Lloerbysg Periw | *Selene peruviana* |
| Llygaid mawr | Pob rhywogaeth o *Priacanthus* |
| Llymrïen | *Ammodytes tobianus* |
| Llysywen | Pob rhywogaeth o *Anguilla* |
| Llysywen fôr | Pob rhywogaeth o *Conger* |
| Macrell | Pob rhywogaeth o *Scomber* |
| Macrell India | Pob rhywogaeth o *Rastrelliger* |
| Macrell neidraidd | Pob rhywogaeth o'r teulu *Gempylidae* |
| Macrell Sbaen | Pob rhywogaeth o *Scomberomorus* |
| Gellir defnyddio'r dynodiadau masnachol canlynol hefyd mewn perthynas â physgod o'r | |

| *Colofn 1*<br>*Dynodiad masnachol* | *Colofn 2*<br>*Rhywogaeth o bysgod* |
|---|---|
| rhywogaethau a restrir gyferbyn â hwy yng Ngholofn 2: | |
| Macrell frenhinol | *Scomberomorus cavalla* |
| Macrell Sierra | *Scomberomorus sierra* |
| Maelgi | *Lophius piscatorius* |
| | *Lophius americanus* |
| | *Lophiodes caulinaris* |
| | *Lophius budegassa* |
| Maelgi'r Penrhyn | *Lophius vomerinus* |
| Maelgi'r Môr Tawel | *Lophius litulon* |
| Mahi Mahi | *Coryphaena hippurus* |
| Marchfacrell | Pob rhywogaeth o *Caranx* |
| | Pob rhywogaeth o *Hemicaranx* |
| | Pob rhywogaeth o *Seriola* |
| | Pob rhywogaeth o *Trachurus* |
| | Pob rhywogaeth o *Decapterus* |
| Gellir defnyddio'r dynodiad masnachol canlynol hefyd mewn perthynas â physgod o'r rhywogaeth a restrir gyferbyn ag ef yng Ngholofn 2: | |
| Marchfacrell felen | *Seriola lalandi* |
| Marchfacrell streipen felen | *Sellaroides leptolepis* |
| Marchfacrell y Penrhyn | *Genypterus capensis* |
| Marlin | Pob rhywogaeth o *Makaira* |
| Merfog | Pob rhywogaeth o *Brama* |
| | Pob rhywogaeth o *Stromateus* |
| | Pob rhywogaeth o *Pampus* |
| Merfog du | *Spondyliosoma cantharus* |
| Merfog esgyll edafog | Pob rhywogaeth o *Nemipterus* |
| Merfog môr *neu* Porgi | Pob rhywogaeth o'r teulu *Sparidae* ac eithrio *Boopsboops* |
| Merlynbysgodyn | Pob rhywogaeth o'r teulu *Leiognathidae* |
| Mingrwn *neu* Hyrddyn coch | Pob rhywogaeth o'r teulu *Mullidae* |
| Morflaidd | Pob rhywogaeth o *Anarhichas* |
| Morgath | Pob rhywogaeth o'r teulu *Rajidae* |

| *Colofn 1*<br>*Dynodiad masnachol* | *Colofn 2*<br>*Rhywogaeth o bysgod* |
|---|---|
| Gellir defnyddio'r dynodiad masnachol canlynol hefyd mewn perthynas â physgod o'r rhywogaeth a restrir gyferbyn ag ef yng Ngholofn 2: | |
| Rocer | *Raja clavata* |
| Morgi | Pob rhywogaeth o *Galeorhinus* |
| | Pob rhywogaeth o *Mustelus* |
| | Pob rhywogaeth o *Scyliorhinus* |
| | *Galeus melastomus* |
| | *Squalus acanthias* |
| Morgi *neu* Siarc | *Carcharhinus falciformis* |
| | *Carcharhinus limbatus* |
| | *Carcharhinus plumbeus* |
| | *Cetorrhinus maximus* |
| | *Isurus oxyrinchus* |
| | *Lamna nasus* |
| | *Prionace glauca* |
| | *Rhincodon typus* |
| Gellir defnyddio'r dynodiadau masnachol canlynol hefyd mewn perthynas â physgod o'r rhywogaethau a restrir gyferbyn â hwy yng Ngholofn 2: | |
| Heulgi | *Cetorrhinus maximus* |
| Morfilgi | *Rhincodon typus* |
| Morgi blaenddu | *Carcharhinus limbatus* |
| Morgi sidanaidd | *Carcharhinus falciformis* |
| Morgi traethell | *Carcharhinus plumbeus* |
| Morgi trwynfain *neu* Maco | *Isurus oxyrinchus* |
| Morgi trwynog *neu* Corgi môr | *Lamna nasus* |
| Morgi glas | *Prionace glauca* |
| Morlas | *Pollachius pollachius* |
| Morlas Alaska | *Theragra chalcogramma* |
| Môr-wiber *neu* Pryf traeth *neu* Diawl dan draed *neu* Pysgodyn bwyell | Pob rhywogaeth o'r teulu *clupea* |
| Opa | Pob rhywogaeth o *Lampris* |
| Oreo | *Allocyttus niger* |

| *Colofn 1* *Dynodiad masnachol* | *Colofn 2* *Rhywogaeth o bysgod* |
|---|---|
| Gellir defnyddio'r dynodiadau masnachol canlynol hefyd mewn perthynas â physgod o'r rhywogaethau a restrir gyferbyn â hwy yng Ngholofn 2: | *Pseudocyttus maculatus* |
| Oreo du | *Allocyttus niger* |
| Oreo llyfn | *Pseudocyttus maculatus* |
| Parot môr | Pob rhywogaeth o'r teulu *Scaridae* |
| Penfras *neu* Codyn *neu* Còd | *Gadus morhua* |
| Penfras coch | *Pseudophycis bachus* |
| Penfras glas | *Parapercis colias* |
| Penfras y De | *Patagonotothen ramysai* |
| Penfras saffrwm | *Eleginus gracilis* |
| Penfras y Môr Tawel | *Gadus macrocephalus* |
| Penfras Japan | Pob rhywogaeth o'r teulu *Leiognathidae* |
| Penfras yr Ynys Las | *Gadus ogac* |
| Pennog *neu* Ysgadenyn | *Clupea harengus* |
| Noder hefyd y cofnodion ar gyfer Sild *neu* Pennog Norwy a Silod mân. | |
| Pennog Mair | *Sardina pilchardus* |
| Noder hefyd y cofnod ar gyfer Sardîn *neu* Pennog Mair | |
| Pennog Mair De'r Iwerydd | *Sardinops sagax* a ddaliwyd yn Ne'r Iwerydd |
| Pennog Mair y Môr Tawel | *Sardinops sagax* a ddaliwyd yn y Môr Tawel |
| Picarel | *Spicara smaris* |
| Pysgod arian | Pob rhywogaeth o'r teulu *Argentinidae* |
| Pysgodyn cleddyf | *Xiphias gladius* |
| Pysgodyn coch | Pob rhywogaeth o *Sebastes* |
| | Pob rhywogaeth o *Helicolenus* |
| Pysgodyn croen lledr | *Aluterus monoceros* |
| Pysgodyn cwningen | Pob rhywogaeth o'r teulu *Siganidae* |
| Pysgodyn darn arian | *Zeus faber* |
| Pysgodyn glas | *Pomatomus saltatrix* |
| Pysgodyn hedegog | Pob rhywogaeth o'r teulu *Exocoetidae* |
| Pysgodyn iâ | *Dissostichus mawsoni* |
| | *Dissostichus eleginoides* |

| *Colofn 1*<br>*Dynodiad masnachol* | *Colofn 2*<br>*Rhywogaeth o bysgod* |
|---|---|
| Pysgodyn iâ Patagoniad | *Patagonotothen ramsayi* |
| Pysgodyn job – *gweler* y cofnod ar gyfer Cipiwr | |
| Pysgodyn llaeth | *Chanos chanos* |
| Pysgodyn llygad llo | *Boops boops* |
| Pysgodyn madfall pen rhaw | Pob rhywogaeth o'r teulu *Platycephalidae* |
| Pysgodyn Mair | Pob rhywogaeth o'r teulu *Elopidae* |
| Pysgodyn Mwmbai | *Harpadon nehereus* |
| Pysgodyn sabl | *Anoplopoma fimbria* |
| Pysgodyn ystlys arian | Pob rhywogaeth o'r teulu *Atherinidae* |
| Robalo | Pob rhywogaeth o *Centropomus* |
| Rocer | *Raja clavata* |
| Rhawbysgodyn | Pob rhywogaeth o'r teulu *Ephippidae* |
| Rhedwr seithliw | *Elagatis bipinnulata* |
| Sardîn *neu* Pennog Mair | *Sardina pilchardus* bach |
| Sardinela | Pob rhywogaeth o *Sardinella* |
| Sêr-dremiwr | Pob rhywogaeth o'r teulu *Uranoscopidae* |
| Sillago | Pob rhywogaeth o'r teulu *Sillaginidae* |
| Sgipjac | *Euthynnus (Katsuwonus) pelamis* |
| Sgorpion môr du | *Scorpaena porcus* |
| Sild *neu* Pennog Norwy | *Clupea harengus* bach mewn tun |
| | *Sprattus sprattus* bach mewn tun |
| Noder hefyd y cofnodion ar gyfer Corbennog, Pennog *neu* Ysgadenyn, Corbennog a Silod mân | |
| Silod mân | *Clupea harengus* bach |
| | *Sprattus sprattus* bach (ac eithrio mewn tun) |
| Noder hefyd y cofnodion ar gyfer Corbennog, Pennog *neu* Ysgadenyn, Sild *neu* Pennog Norwy a Corbennog. | |
| Swtan glas | *Micromesistius poutassou* |
| Swtan glas y De | *Micromesistius australis* |
| Tarpon | Pob rhywogaeth o'r teulu *Megalopidae* |
| Tiwna | Pob rhywogaeth o *Thunnus* |
| Gellir defnyddio'r dynodiadau masnachol canlynol hefyd mewn perthynas â physgod o'r | |

| *Colofn 1* *Dynodiad masnachol* | *Colofn 2* *Rhywogaeth o bysgod* |
|---|---|
| rhywogaethau a restrir gyferbyn â hwy yng Ngholofn 2: | |
| Tiwna esgyll hirion *neu* Tiwna asgellog | *Thunnus alalunga* |
| Tiwna melyn | *Thunnus albacares* |
| Tiwna glas | *Thunnus thynnus* |
| Tiwna glas y Môr Tawel | *Thunnus orientalis* |
| Tiwna glas y De | *Thunnus maccoyii* |
| Tiwna llygaid mawr | *Thunnus obesus* |
| Torbwt *neu* Lleden y môr *neu* Tafod yr hydd *neu* Lleden arw *neu* Lleden chwith | *Psetta maxima* |
| Torbwt cynffonfrych | *Psettodes belcheri* |
| Wahŵ | *Acanthocybium solandri* |
| Ymherodr | Pob rhywogaeth o *Lethrinus* |
| **Eogiaid a Physgod Dŵr Croyw** | |
| Aere – *gweler* y cofnod ar gyfer Cathbysg | |
| Banspata – *gweler* y cofnod ar gyfer Cerpyn | |
| Barfogyn – *gweler* y cofnod ar gyfer Cerpyn | |
| Bata – *gweler* y cofnod ar gyfer Cerpyn | |
| Batashi | *Pseudeutropius atherinoides* |
| Batsia | *Eutropiichthys vacha* |
| Boal – *gweler* y cofnod ar gyfer Cathbysg | |
| Brithyll | *Salmo trutta trutta* sydd wedi treulio'i fywyd cyfan mewn dŵr croyw |
| Brithyll gyddfgoch | *Oncorhynchus clarki clarki* |
| Brithyll seithliw | *Oncorhynchus mykiss* |
| Bwswri – *gweler* y cofnod ar gyfer Cathbysg | |
| Cacila | *Xenentodon cancila* |
| Calibws – *gweler* y cofnod ar gyfer Cerpyn | |
| Cathbysg | Pob rhywogaeth o'r teulu *Clariidae* |
| | Pob rhywogaeth o'r teulu *Siluridae* |
| | Pob rhywogaeth o'r teulu *Ictaluridae* |
| | Pob rhywogaeth o'r teulu *Bagridae* |
| | Pob rhywogaeth o'r teulu *Pimelodidae* |
| Gellir defnyddio'r dynodiadau masnachol canlynol hefyd mewn perthynas â physgod o'r | |

| *Colofn 1* *Dynodiad masnachol* | *Colofn 2* *Rhywogaeth o bysgod* |
|---|---|
| rhywogaethau a restrir gyferbyn â hwy yng Ngholofn 2: | |
| Cathbysg America | Pob rhywogaeth o'r teulu *Ictaluridae* |
| Aere | *Sperata aor* |
| Boal | *Wallago attu* |
| Bwswri | *Mystus tengara* |
| Gwlsia | *Mystus bleekeri* |
| Magwr | *Clarias batrachus* |
| Pabda | *Ompok pabda* |
| Tengra | *Mystus vittatus* |
| Catsiana *neu* Tambaci | *Colossoma macroponum* |
| Cerpyn | Pob rhywogaeth o'r teulu *Cyprinidae* |
| Gellir defnyddio'r dynodiadau masnachol canlynol hefyd mewn perthynas â physgod o'r rhywogaethau a restrir gyferbyn â hwy yng Ngholofn 2: | |
| Banspata | *Danio devario* |
| Barfogyn | *Barbus barbus* |
| Bata | *Labeo bata* |
| Merfog dŵr croyw | *Abramis brama* |
| Tsielapata | *Salmostoma bacaila* |
| Gania | *Labeo gonius* |
| Calibws | *Labeo calbasu* |
| Mowrala | *Amblypharyngodon mola* |
| Pwnti | *Puntius sarana* |
| Rhufell | *Rutilus rutilus* |
| Rwhi | *Labeo rohita* |
| Sgreten | *Tinca tinca* |
| Cerpyn euraidd | *Anabas testudineus* |
| Cesci | *Corica soborna* |
| Chalisia | *Colisa fasciatus* |
| Crydd yr afon | Pob rhywogaeth o'r teulu *Pangasiidae* |
| Gellir defnyddio'r dynodiad masnachol canlynol hefyd mewn perthynas â physgod o'r rhywogaeth a restrir gyferbyn ag ef yng Ngholofn 2: | |

| *Colofn 1* *Dynodiad masnachol* | *Colofn 2* *Rhywogaeth o bysgod* |
|---|---|
| Crydd brenhinol yr afon | *Pangasianodon bocourti* |
| Draenogyn afon Nîl | *Lates niloticus* |
| Draenogyn ceg fawr | *Stizostedion lucioperca* |
| Eog *neu* Salmon | *Salmo salar** |
| Eog cefngrwm | *Oncorhynchus gorbuscha** |
| Eog Ceta | *Oncorhynchus keta** |
| Eog coch | *Oncorhynchus nerka** |
| Eog cochlyd | *Oncorhynchus kisutch** |
| Eog y Môr Tawel | *Oncorhynchus tshawytscha** |
| Eog Japan | *Oncorhynchus masou masou** |
| Gania – *gweler* y cofnod ar gyfer Cerpyn | |
| Gwlsia – *gweler* y cofnod ar gyfer Cathbysg | |
| Gwyniad yr Arctig | *Coregonus autumnalis* |
| Gwyniad Ewrop | *Coregonus albula* |
| Largebaim *neu* Patabaim | Pob rhywogaeth o'r teulu *Mastacembelidae* |
| Magwr – *gweler* y cofnod ar gyfer Cathbysg | |
| Meni | *Nandus nandus* |
| Merfog dŵr croyw – *gweler* y cofnod ar gyfer Cerpyn | |
| Mowrala – *gweler* y cofnod ar gyfer Cerpyn | |
| Pabda – *gweler* y cofnod ar gyfer Cathbysg | |
| Pacw | *Piaractus mesopotamicus* |
| Patabaim *neu* Largebaim | Pob rhywogaeth o'r teulu *Mastacembelidae* |
| Penhwyad | *Esox lucius* |
| Pwnti – *gweler* y cofnod ar gyfer Cerpyn | |
| Pysgodyn pen neidr | Pob rhywogaeth o'r teulu *Channidae* |
| Pysgodyn y frenhines | *Botia dario* |
| Rwhi – *gweler* y cofnod ar gyfer Cerpyn | |
| Rhufell – *gweler* y cofnod ar gyfer Cerpyn | |
| Sgreten – *gweler* y cofnod ar gyfer Cerpyn | |
| Siol | *Channa striata* |
| Siwin | *Salmo trutta trutta* sydd wedi treulio rhan o'i fywyd yn y môr |
| Taci | *Channa punctata* |

| *Colofn 1*<br>*Dynodiad masnachol* | *Colofn 2*<br>*Rhywogaeth o bysgod* |
|---|---|
| Tambaci *neu* Catsiama | *Colossoma macroponum* |
| Tengra – *gweler* y cofnod ar gyfer Cathbysg | |
| Tilapia | Pob rhywogaeth o *Tilapia* |
| | Pob rhywogaeth o *Oreochromis* |
| Torgoch | Pob rhywogaeth o *Salvelinus* |
| Tsiapila | *Gudusia chapra* |
| Tsielapata – *gweler* y cofnod ar gyfer Cerpyn | |
| **Pysgod Cregyn** | |
| Berdysen *neu* Corgimwch | Corgimychiaid cyfain (o faint sy'n cyfateb i lai na 397 ohonynt y cilo pan fyddant wedi'u coginio) *neu* gynffonnau (o faint sy'n cyfateb i lai na 1,323 y cilo pan fyddant wedi'u pilio a'u coginio) o— |
| | Pob rhywogaeth o'r teulu *Aristaeidae* |
| | Pob rhywogaeth o'r teulu *Palaemonidae* |
| | Pob rhywogaeth o'r teulu *Pandalidae* |
| | Pob rhywogaeth o'r teulu *Penaeidae* |
| Berdysen y tywod | Pob rhywogaeth o *Crangon* |
| Cimwch | Pob rhywogaeth o *Homarus* |
| Cimwch bach y Môr Tawel | *Metanephrops andamanicus* |
| | *Metanephrops challengeri* |
| | *Metanephrops thomsoni* |
| Cimwch byrdew | Pob rhywogaeth o'r teulu *Galatheidae* |
| Cimwch Cefnfor India | *Puerulus sewelli* |
| | *Puerulus carinatus* |
| | *Puerulus angulatus* |
| Cimwch coch *neu* Siacar goch *neu* Cimwch Mair | Pob rhywogaeth o *Panulirus* |
| | Pob rhywogaeth o *Palinurus* |
| | Pob rhywogaeth o *Jasus* |
| Cimwch Mair *neu* Cimwch coch *neu* Siacar goch | Pob rhywogaeth o *Panulirus* |
| | Pob rhywogaeth o *Palinurus* |
| | Pob rhywogaeth o *Jasus* |
| Cimwch Norwy | *Nephrops norvegicus* |
| Cimwch pen rhaw | Pob rhywogaeth o'r teulu *Scyllaridae* |
| Cocosen | Pob rhywogaeth o *Cerastoderma* |

| *Colofn 1* *Dynodiad masnachol* | *Colofn 2* *Rhywogaeth o bysgod* |
|---|---|
| Cocosen fraith | *Glycymeris glycymeris* |
| Corgimwch *neu* Berdysen | Corgimychiaid cyfain (o faint sy'n cyfateb i lai na 397 ohonynt y cilo pan fyddant wedi'u coginio) *neu* gynffonnau (o faint sy'n cyfateb i lai na 1,323 y cilo pan fyddant wedi'u pilio a'u coginio) o— |
| | Pob rhywogaeth o'r teulu *Aristaeidae* |
| | Pob rhywogaeth o'r teulu *Palaemonidae* |
| | Pob rhywogaeth o'r teulu *Pandalidae* |
| | Pob rhywogaeth o'r teulu *Penaeidae* |
| Corgimwch Esop | *Pandalus montagui* |
| Corgimwch mantis | *Squilla mantis* |
| Corgimwch rhesog | *Parapenaeopsis hardwickii* |
| | *Parapenaeopsis sculptilis* |
| | *Penaeus esculentus* |
| | *Penaeus japonicus* |
| | *Penaeus kerathurus* |
| | *Penaeus monodon* |
| | *Penaeus semisulcatus* |
| Cragen Aberffro *neu* Cragen fylchog | *Pecten maximus* |
| Cragen Arch | Pob rhywogaeth o'r teulu *Arcidae* |
| Cragen y dyfrgi | *Lutraria lutraria* |
| Cragen foch fwyaf | Pob rhywogaeth o *Buccinum* |
| Cragen Forwyn fwyaf | *Mercenaria mercenaria* |
| | *Venus verrucosa* |
| Cragen y Frenhines *neu* Cwin | *Chlamys (Aequipecten) opercularis* |
| Cragen fylchog | Pob rhywogaeth o'r teulu *Pectinidae* |
| Cragen fylchog *neu* Cragen Aberffro | *Pecten maximus* |
| Cragen fylchog frodorol | *Tapes decussatus* |
| | *Ruditapes decussatus* |
| | *Venerupis decussa* |
| Cragen fylchog yr Iwerydd | *Placopecten magellanicus* |
| Cragen fylchog Manila | *Aristaeidae* |
| | *Tapes philippinarum* |
| Cragen gasgliad *neu* Morglust | Pob rhywogaeth o *Haliotis* |

| *Colofn 1*<br>*Dynodiad masnachol* | *Colofn 2*<br>*Rhywogaeth o bysgod* |
|---|---|
| Cragen las | Pob rhywogaeth o'r teulu *Mytilidae* |
| Cragen noe | Pob rhywogaeth o *Spisula* |
| Cranc | Pob rhywogaeth o'r urdd *Brachyura* |
| | Pob rhywogaeth o'r teulu *Lithodidae* |
| Cwin *neu* Cragen y Frenhines | *Chlamys (Aequipecten) opercularis* |
| Cyllell fôr | Pob rhywogaeth o Ensis a Solen |
| Draenog môr | Pob rhywogaeth o'r teulu *Echinidae* |
| Encudd y tywod | Pob rhywogaeth o *Mya* |
| Gwichiad | Pob rhywogaeth o *Littorina* |
| Gwydwg | *Panopea abrupta* |
| Llymarch *neu* Wystrysen | Pob rhywogaeth o *Crassostrea* |
| | Pob rhywogaeth o *Ostrea* |
| Gellir defnyddio'r dynodiadau masnachol canlynol hefyd mewn perthynas â physgod o'r rhywogaethau a restrir gyferbyn â hwy yng Ngholofn 2: | |
| Llymarch Llydaw *neu* Wystrysen Llydaw | *Ostrea edulis* |
| *Gweler* hefyd y cofnod am Wystrysen y Môr Tawel ac Wystrysen Portiwgal | |
| Marchgorgimwch | Pob rhywogaeth o'r teulu *Aristaeidae* |
| | Pob rhywogaeth o'r teulu *Palaemonidae* |
| | Pob rhywogaeth o'r teulu *Penaeidae* |
| | Pan fo'r nifer yn llai na 123 y cilo (gyda'r pen/gyda'r gragen) *neu'n* llai na 198 y cilo (heb y pen/gyda'r gragen) *neu'n* llai na 242 y cilo (heb y pen/heb y gragen) |
| Môr-lawes flaenllym | *Nototodarus sloani* |
| | *Nototodarus gouldi* |
| Môr-lawes gyffredin *neu* Twyllwr du cyffredin *neu* Sgwid | Pob rhywogaeth o *Illex* |
| | Pob rhywogaeth o *Loligo* |
| | *Ommastrephes sagittatus* |
| Octopws | Pob rhywogaeth o *Octopus* |
| Sgwid *neu* Môr-lawes gyffredin *neu* Twyllwr du cyffredin | Pob rhywogaeth o *Loligo* |
| | Pob rhywogaeth o *Illex* |
| | *Ommastrephes sagittatus* |
| Siacar | Pob rhywogaeth o'r teulu *Astacidae* |

| *Colofn 1*<br>*Dynodiad masnachol* | *Colofn 2*<br>*Rhywogaeth o bysgod* |
|---|---|
| | Pob rhywogaeth o'r teulu *Parastacidae* |
| | Pob rhywogaeth o'r teulu *Austroastacidae* |
| | Pob rhywogaeth o'r teulu *Cambaridae* |
| Siacar goch *neu* Cimwch coch *neu* Cimwch Mair | Pob rhywogaeth o *Panulirus* |
| | Pob rhywogaeth o *Jasus* |
| Twyllwr du cyffredin *neu* Sgwid *neu* Môr-lawes gyffredin | Pob rhywogaeth o *Loligo* |
| | Pob rhywogaeth o *Illex* |
| | *Ommastrephes sagittatus* |
| Wystrysen *neu* Llymarch | Pob rhywogaeth o *Crassostrea* |
| | Pob rhywogaeth o *Ostrea* |
| Wystrysen Llydaw *neu* Llymarch Llydaw | *Ostrea edulis* |
| Wystrysen y Môr Tawel | *Crassostrea gigas* |
| Wystrysen Portiwgal | *Crassostrea angulata* |
| Ystifflog | Pob rhywogaeth o *Sepia* |
| | *Rossia macrosoma* |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1.** Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Teitl I, Pennod 2 (gwybodaeth i'r defnyddiwr) o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 104/2000 ar gyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion pysgodfeydd a chynhyrchion dyframaethu (OJ Rhif L17, 21.2.2000, t.22) fel y'i cymhwysir gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2065/2001 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 104/2000 ynglŷn â hysbysu defnyddwyr ynghylch cynhyrchion pysgodfeydd a chynhyrchion dyframaethu (OJ Rhif L278, 23.10.2001, t.6).

**2.** Mae Teitl I o Bennod 2 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 104/2000 yn gosod gofynion ynghylch darparu gwybodaeth am ddynodiad masnachol, dull cynhyrchu a chylch dalfa cynhyrchion pysgodfeydd a chynhyrchion dyframaethu penodol sy'n cael eu cynnig ar gyfer eu hadwerthu i'r defnyddiwr terfynol. Mae'n darparu ymhellach i Aelod-wladwriaethau lunio a chyhoeddi rhestr o ddynodiadau masnachol ar gyfer o leiaf y rhywogaethau a restrir yn Atodiadau I i IV o'r Rheoliad. Mae Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2065/2001 yn disgrifio'n fanylach yr wybodaeth sydd i'w darparu i ddefnyddwyr a'r esemptiadau y ceir eu caniatáu. Mae'n darparu hefyd ynglŷn â'r wybodaeth angenrheidiol sydd i'w darparu ym mhob cyfnod o'r broses farchnata.

**3.** Mae'r Rheoliadau hyn:

(a) yn darparu rhestr wedi'i diweddaru o'r dynodiadau masnachol y mae'n ofynnol i'r Deyrnas Unedig eu llunio (rheoliad 4 a'r Atodlen) ac yn darparu ymhellach ar gyfer caniatáu dynodiadau masnachol dros dro (*rheoliad 8*);

(b) yn darparu ar gyfer y rhanddirymiad yn Erthygl 4.2 o Reoliad (EC) Rhif 2065/2001 (yr amgylchiadau pan ganiateir i gynhyrchion pysgodfeydd gael eu gwerthu i'r defnyddiwr terfynol heb fod wedi'u marcio na'u labelu gyda'r dull cynhyrchu) (*rheoliad 5*);

(c) yn unol ag Erthygl 7 o Reoliad (EC) Rhif 2065/2001, yn penderfynu beth sy'n ffurfio “meintiau bach o gynhyrchion a werthir yn uniongyrchol i ddefnyddwyr” at ddibenion cymhwyso'r rhanddirymiad yn Erthygl 4.1 o Reoliad (EC) Rhif 104/2001 (*rheoliad 6*);

(ch) yn darparu y caiff y mynegiad o gylch y ddalfa sy'n ofynnol gan Erthygl 4.1(c) o Reoliad (EC) Rhif 104/2001, yn unol ag Erthygl 5(1)(c) o Reoliad (EC) Rhif 2065/2001, fynegi yr amrywiol Aelod-wladwriaethau neu drydydd gwledydd y cafodd y cynnyrch ei ffermio ynddynt (*rheoliad 7*);

(d) yn creu tramgwyddau a rhagnodi cosbau (*rheoliad 3*), yn pennu awdurdodau gorfodi (*rheoliad 9*) ac yn cymhwyso, gydag addasiadau, ddarpariaethau penodol yn Neddf Diogelwch Bwyd 1990 (rheoliad 10); ac

(dd) yn dirymu Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) 2003 (O.S. 2003/635 (Cy.177)) a Rheoliadau Labelu Pysgod (Diwygio) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/1339 (Cy.131)) (*rheoliad 11*).

Mae asesiad effaith rheoleiddiol llawn wedi'i wneud mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn ac mae ar gael gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Southgate House, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW.